## Am fwy o wybodaeth?

Ymwelwch a dudalennau System Wybodaeth Gofal Cymunedol ar wefan Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru:

**www.wales.nhs.uk/nwis/wccis**

ADSS Cymru
Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

GIG CYMRU
NHS WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

**Mae system gyfrifiadurol newydd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru i helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal yn agosach at gartrefi pobl. Bydd yn diddymu'r system electronig a phapur bresennol a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

**Enw'r system yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), ac mae'n rhoi i nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion, yr offer digidol sydd eu hangen arnynt i weithio'n well gyda'i gilydd.**

## Sut bydd WCCIS yn fy helpu i gael y gofal gorau?


Bydd yn gwella rhannu gwybodaeth berthnasol a phriodol rhwng gwasanaethau ac ar draws ffiniau rhanbarthol, sy'n golygu y bydd gan y bobl gywir y wybodaeth gywir ar yr amser cywir.

Ni fydd rhaid i chi ailadrodd eich gwybodaeth i weithiwyr proffesiynol gwahanol.

Bydd yn gwella mynediad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol at wybodaeth bwysig amdanoch chi.

Os bydd arnoch angen gofal rhywle arall yng Nghymru, bydd yn bosibl rhannu eich gwybodaeth yn haws.

Bydd gweithwyr proffesiynol yn gallu defnyddio technoleg ddigidol i gynorthwyo eich gofal ble bynnag rydych chi.



## Pwy fydd yn gallu gweld fy ngwybodaeth?

Bydd staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â darparu eich gofal ond yn gweld y wybodaeth sy'n angenrheidiol iddynt i ofalu amdanoch a'ch cynorthwyo.

Bydd ychydig o wybodaeth bersonol ar gael i ddefnyddwyr WCCIS ledled Cymru at ddibenion adnabod. Bydd gwybodaeth fanylach ar gael dim ond i weithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanoch.

## Sut caiff fy ngwybodaeth ei chadw'n ddiogel?

Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data yn unig, sy'n darparu set o reolau i sefydliadau eu dilyn.

Bydd defnyddwyr WCCIS yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system yn ddiogel.

Rhaid i ddefnyddwyr WCCIS gadw at bolisïau lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth.

Caiff y system ei harchwilio a'i monitro'n llawn.

## A oes rhaid rhannu fy ngwybodaeth?

Nid rhywbeth newydd yw'r cysyniad o rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ond mae WCCIS yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei rhannu'n electronig. Gallai peidio â rhannu eich gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill gael effaith ar effeithlonrwydd a diogelwch y gofal a'r driniaeth y byddwch yn eu cael, a dylech drafod unrhyw bryderon gyda'r gweithiwr proffesiynol sy'n darparu eich gofal.